## ATODLEN 2

Rheoliad 2(2)(a)

## DEUNYDDIAU CRAI A GANIATEIR WRTH BARATOI CYNHYRCHION DYNODEDIG

**1.** Ffrwythau, o unrhyw fath heblaw tomatos.

**2.** Piwrî ffrwythau, sef y cynnyrch eplesadwy ond heb ei eplesu a geir drwy hidlo'r rhan fwytadwy o'r ffrwyth cyfan neu'r ffrwyth wedi'i bilio heb dynnu'r sudd ohono.

**3.** Piwrî ffrwythau dwysedig, sef y cynnyrch a geir o'r pwrî ffrwythau drwy dynnu cyfran benodol o'i gynnwys dŵ r.

**4.** Siwgrau, sef —

(a) wrth baratoi neithdar ffrwythau —

— siwgrau fel y'u diffinnir yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2001/111/EC sy'n ymwneud â siwgrau penodol y bwriadwyd i bobl eu bwyta (**1**);

— surop ffrwctos;

— siwgrau sy'n deillio o ffrwythau;

(b) wrth baratoi sudd ffrwythau o ddwysfwyd —

— siwgrau fel y'u diffinnir yng Nghyfarwyddeb 2001/111/EC a enwyd;

— surop ffrwctos;

(c) wrth baratoi sudd ffrwythau —

— unrhyw siwgr a ganiateir ym mharagraff (b) uchod o ran sudd ffrwythau o ddwysfwyd ar yr amod ei fod yn cynnwys llai na 2% o ddŵ r.

**5.** Mêl, sef y cynnyrch a ddiffinnir fel “honey” yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2001/110/EC mewn perthynas â mêl(**2**).

**6.** Mwydion neu gelloedd, sef —

— mewn perthynas â ffrwythau sitrws, y codennau sudd a geir o'r endocarp;

— mewn perthynas ag unrhyw ffrwythau eraill, y cynhyrchion a geir o rannau bwytadwy o'r ffrwyth heb dynnu'r sudd ohonynt.

(**1**) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.53.
(**2**) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.47.